

# Fersiwn y dysgwyr

## Canllawiau

Bwriad y deunyddiau hyn yw **cynnig enghreifftiau o'r mathau o brofion a chwestiynau** fydd yn cael eu defnyddio yn y Profion Darllen Cenedlaethol statudol.

Ceir pedwar prawf darllen yn Saesneg a phedwar prawf darllen yn Gymraeg (profion gwreiddiol ydynt, nid cyfieithiadau) i'w defnyddio ym mis Mai. Fe'u defnyddir gyda grwpiau blwyddyn fel a ganlyn – Blynyddoedd 2/3, Blynyddoedd 4/5, Blynyddoedd 6/7 a Blynyddoedd 8/9.

6/7 a Blynyddoedd 8/9.

Serch hynny, **at ddibenion y deunyddiau sampl hyn**, ac er mwyn hwyluso pethau i ysgolion, cyflwynir y deunyddiau fel a ganlyn.

- Blynyddoedd 2/3 – fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon.
- Blynyddoedd 4/5/6 (deunyddiau cynradd) – fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon.
- Blynyddoedd 7/8/9 (deunyddiau uwchradd) – fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon.

**Lluniwyd y deunyddiau i'w defnyddio ochr yn ochr â'i gilydd** – sef fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon yn goleuo ei gilydd.

Ceir **darn darllen a chwestiynau arno** yn fersiwn y dysgwyr. Gellid lawrlwytho'r ddogfen a'i defnyddio gyda'r dysgwyr yn y dosbarth – naill ai'n gopïau caled neu'n electronig, er enghraifft, ar fwrdd gwyn rhyngweithiol.

Yn fersiwn yr athrawon, ceir copi o fersiwn y dysgwyr â nodiadau arno. Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am bwrpas y mathau gwahanol o gwestiynau yn ogystal ag egluro sut dylai'r dysgwyr ateb y cwestiynau er mwyn dangos eu gwir allu. Gellir lawrlwytho fersiwn yr athrawon a'i argraffu neu'i ddefnyddio'n electronig.

**Noder: nid yw'r deunyddiau sampl yn cynrychioli'r prawf cyfan.**

**Eu pwrpas yw enghreifftio'r dull cwestiynu a ddefnyddir.**

Mae deunyddiau sampl wedi'u haddasu ar gael i gefnogi dysgwyr â nam golwg neu ddysgwyr sydd fel arfer yn defnyddio print bras yn yr ystafell ddogfen.

Mae'r deunyddiau i gyd ar gael mewn Print Bras wedi'i Addasu (maint B4, ffont pwynt 18) neu Braille (Gradd 2). Mae deunyddiau i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 4 i 9 ar gael hefyd mewn fformat Print Mwy (maint B4, ffont pwynt 14).

Os ydych wedi archebu profion wedi eu haddasu ac os hoffech dderbyn copïau o'r deunyddiau enghreifftiol hyn, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Archebu Profion ar 01753 637270 neu [welsh-test-orders@nfer.ac.uk](mailto:welsh-test-orders@nfer.ac.uk)



**Deunyddiau darllen sampl**

# Fersiwn y dysgwyr



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cŵn sy'n helpu pobl

Mae rhai cŵn yn cael eu hyfforddi i helpu pobl. Mae'n costio tua £50,000 i hyfforddi un ci. Mae'r ci'n dechrau dysgu yn ifanc iawn. Pan fydd y ci'n barod mae'n mynd i fyw gyda'r person sydd angen help. Mae'r ci'n mwynhau helpu'r person ac mae'r perchennog yn dibynnu ar y ci yn fawr iawn.

## Cŵn clywed

Mae'r ci clywed yn cyffwrdd y person â'i bawen pan fydd yn clywed sŵn. Bob bore mae'r ci'n clywed y cloc larwm ac yn deffro'r person. Os bydd tân yn y tŷ a'r ci'n clywed larwm mwg, mae'n gorwedd o flaen y person i ddangos bod perygl. Pan fydd cloch y drws yn canu, mae'r ci'n arwain ei berchennog i'r drws.

## Cŵn tywys

Mae cŵn tywys yn helpu pobl sy'n methu gweld o gwbl, neu bobl sy'n cael problem gweld, i deithio'n ddiogel. Mae'r cŵn yn dysgu sut i arwain y person o gwmpas pethau. Mae'r ci'n cerdded yn dawel wrth ochr y person. Yn y dref, mae'r ci'n aros ar ochr y ffordd tan y bydd hi'n ddiogel i groesi.

## Stori wir


Ci John Fletcher, 34 oed, ydy Tammy. Mae hi'n dair oed. Mae Tammy a John yn byw yn America. Mae clefyd siwgr ar John. Mae Tammy yn gwybod pan fydd lefel siwgr John yn isel. Mae Tammy yn gwneud sŵn ac yn procio John. Rhaid i John wneud prawf wedyn i weld beth sy'n bod ar lefel y siwgr. Ond mae Tammy bob amser yn iawn.

Ci clyfar iawn ydy Tammy. Un diwrnod, roedd John yn sâl iawn. Roedd o'n gorwedd ar y llawr. Roedd ei lygaid ar gau a doedd o ddim yn gallu siarad. Felly, dyma Tammy yn defnyddio'r ffôn i gael help. Ond sut? Dydy ci ddim yn gallu ffonio! Roedd John wedi dysgu Tammy i wasgu 911 gyda'i thrwyn. Dyna'r rhif mae'n rhaid ei ffonio er mwyn galw ambiwlans yn America. Roedd Tammy wedi achub bywyd John ac felly cafodd hi wobr arbennig. Gwobr am ddefnyddio ffôn symudol i achub bywyd neu helpu person ydy hi. A pherchennog balch iawn ydy John!



1 Darllenwch y paragraff cyntaf eto. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.


	Cywir	Anghywir
Mae'n costio llai na £50,000 i hyfforddi un ci.		
Mae'n bosibl hyfforddi hen gi i wneud y gwaith.		
Mae'r ci'n byw gyda'r person sy'n ei hyfforddi.		
Mae'r ci sy'n helpu yn bwysig iawn i'r perchennog.		



2 Edrychwch ar y testun yn y bocs.

**Tanlinellwch un** gair sy'n dangos beth mae'r ci clywed yn ei wneud **yn y bore** i helpu ei berchennog.


Mae'r ci clywed yn cyffwrdd y person â'i bawen pan fydd yn clywed sŵn.  
Bob bore mae'r ci'n clywed y cloc larwm ac yn deffro'r person.



3a Beth ydy gwaith cŵn tywys?

Ticiwch 1.


- helpu pobl sy ddim yn gallu cerdded
- helpu pobl sy ddim yn gallu deall
- helpu pobl sy ddim yn gallu clywed
- helpu pobl sy ddim yn gallu gweld



3b Mae'r ci clywed yn helpu ei berchennog i wneud y canlynol:


Ticiwch 2.

- croesi'r stryd
- deffro yn y bore
- ateb y drws
- symud o gwmpas
- gwisgo yn y bore





*trosodd*

- 4 Darllenwch *Cŵn tywys* eto. **Dewiswch** a **chopiwch un** gair i ddisgrifio beth mae'r ci tywys yn ei wneud cyn croesi'r ffordd.





- 5 Tynnwch 4 llinell arall i ddangos sut mae'r ci tywys a'r ci clywed yn helpu'r perchennog. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.



- 6 Dewiswch y gair/geiriau gorau i gyd-fynd â'r darn darllen drwy roi tic wrth eich dewis bob tro.


- a) Mae'r ci tywys yn cerdded  
**yn gyflym**  **yn dawel**  **yn ddiflas**  **yn ddoniol**   
wrth ochr ei berchennog.
- b) Mae'r ci clywed yn  
**cysgu**  **cyfarth**  **chwarae**  **gorwedd**   
o flaen y perchennog pan fydd y larwm tân yn canu.



- 7 Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn o 1-5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

- Tammy yn ennill gwobr arbennig.
- John yn gorwedd ar y llawr.
- John yn dysgu Tammy sut i wasgu 911.
- Tammy yn achub bywyd John.
- Tammy yn galw ambiwlans.



**Diwedd y deunyddiau sampl.**

### **Diolchiadau**

Addaswyd o wybodaeth a geir ar wefan *Pet and Vet* ar <http://petandvet.net.nz/690>